



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Hydref 2014 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 October 2014 at 6.30pm at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors Graham Evans (*yn y gadair/in the chair*), John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Clive Davies, Ken Edwards (*gadael am/left at 9.00pm*), Llwyd Edwards, Melfydd George, Gwynfi Jenkins (*gadael am/left at 9.00pm*), Neal Jones (*gadael am/left at 9.00pm*), Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Graham Evans, bawb i'r cyfarfod, yn cynnwys aelod o'r cyhoedd. Cyfeiriodd at farwolaeth un o hoelion wyth y byd cerddorol a diwylliedig y dref hon, sef Mr Alun Tegryn Davies a fu'n brifathro Ysgol Gynradd Aberteifi am gyfnod maith ac yn Ynad Heddwch yn y dref. Anfonir cydymdeimlad y cyngor at ei briod, Mrs Sandra Davies, a'r teulu oll. Diolchodd y Maer i'r Cyng. Richard Jones a Mr Dyfed Symmons am dynnu'r hen oleuadau Nadolig a'r baneri oddi ar uchelfannau strydoedd Aberteifi. Da oedd ganddo gyfeirio at lwyddiant y fenter o ddsbarthu cardiau teyrngarwch "Cefnogwch Ganol Tref Aberteifi"; dychwelwyd dros 450 ohonynt i'r raffl. Diolchwyd i gwmni 4CG am gynnig dwy awr o barcio yn ddyddiol am ddim yn ystod yr wythnos. Ychwanegodd y Cyng. Clive Davies mai'r boreau lau a Gwener oedd y cyfnodau prysuraf yn ystod yr wythnos. Roedd noson cyflwyno a gwerthfawrogi camp y Prifardd Ceri Wyn Jones yn y Clwb Rygbi yn achlysur llwyddiannus iawn; diolch i swyddogion Cadwgan am ddarparu lluniaeth y noson.

The Mayor, Cllr D. Graham Evans, welcomed everyone to the meeting, including a member of the public. He referred to the recent passing of a past headmaster of Cardigan Junior School, Mr Alun Tegryn Davies, who had contributed greatly to the musical and cultural history of the area; Mr Davies was also a past Justice of the Peace in the town. The condolences of the council were offered to Mrs Sandra Davies and family.

Cllr Evans thanked Cllr Richard Jones and Mr Dyfed Symmons for removing the old Christmas lights and bunting from the town centre. The "Support Cardigan Town Centre" loyalty scheme had worked well with over 450 cards returned for the raffle. The 4CG company was thanked for allowing two hours' free parking daily during the week. Cllr Clive Davies added that the Thursday and Friday mornings were the most active sections of the week. The tribute evening for Ceri Wyn Jones, held at the Rugby Club, was successful; Cadwgan officers were thanked for supplying the evening's refreshments.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng/Cllrs Mark Cole (*gwyliau/holidays*), Richard Jones (*gwaith/work commitments*)

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pherionol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

| | |
|-----------------------------|---|
| Cyng./Cllr John Adams-Lewis | Yr holl faterion cynllunio/All planning matters |
| Cyng./Cllr Jane Roche | Cynllunio/Planning A140690, A140691LB |

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 2 Medi.

Confirmation of Minutes of 2 September Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins bod cofnodion cyfarfod y cyngor 2 Medi yn gywir.

It was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Gwynfi Jenkins that the 2 September council minutes were correct.

5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 2 Medi (Mewn pwyllgor).

Confirmation of Minutes of 2 September Council Meeting (In committee).

6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 878, eitem 4: Cynhelir arddangosfa i goffáu'r rhyfel Byd Cyntaf yng nghyntedd Theatr Mwldan o 14 Hydref hyd 14 Tachwedd. Mae'r ffilm "Oh, What a Lovely War" wedi ei gohirio.

Tud. 882, eitem 10(c)(i): Cynhelir cyfarfod ddydd Iau, 10 Hydref yng nghwmni Mr Gerwyn Jones, Rheolwr Strydlun Trefol y cyngor sir, o amgylch y dref i archwilio'r broblem o fframiau-A sydd yn rhwystro cadeiriau olwyn ar hyd y palmentydd.

Tud. 882, eitem 10(c)(ii): Cytunwyd bod y cynghorwyr sir yn gofyn a ydyw cywiro'r colofnau golau stryd ar hyd y bont yn rhan o'r broses waith.

Tud. 885, eitem 14: Dywedodd y Cyng. Catrin Miles y byddai Partneriaeth Canol y Dref yn cyfarfod eto i archwilio canlyniadau wythnos "Cefnogwch Ganol Tref Aberteifi". Mae'r gwaith papur yn awr wedi ei osod petai cyfle yn codi eto yn y dyfodol i geisio am grant. Ychwanegodd y Cyng. Clive Davies bod y cynllun parcio a gynigiwyd gan gwmni 4CG wedi bod yn llwyddiannus, a cheir patrwm o'r defnydd a wnaed gan fodurwyr. Cytunwyd bod y cyngor yn gofyn i'r cyngor sir am barcio rhad am ddwy awr ar foreau Iau a Gwener yn y dref. Dywedodd y Cyng. Catrin Miles y byddai'r cynllun carden teyrngarwch yn cael ei ymestyn.

Page 878, item 4: An exhibition to commemorate the First World War will be held in the foyer of Theatr Mwldan from 14 October until 14 November. The film "Oh, What a Lovely War" has been cancelled.

Page 882, item 10(c)(i): A walk-about meeting on the streets of the town will be held on Thursday, 10 October with Mr Gerwyn Jones, the county council Urban Streetscene Manager, to inspect the A-frames which obstruct wheelchair users on the pavements.

Page 882, item 10(c)(ii): It was agreed that the county council members ask the county council whether the repairing of the light columns on the bridge was part of the project.

Page 885, item 14: Cllr Catrin Miles stated that the Town Centre Partnership will meet shortly to consider the success of the "Support Cardigan Town Centre" project. The paper work is now in place should a further offer be forthcoming. Cllr Clive Davies added that the 2 hours' free parking offered by 4CG had been successful and that a pattern of usage had been formed; as a result, it was agreed to request the county council to consider allowing two hours' free parking on Thursday and Friday mornings in Cardigan. Cllr Miles mentioned that, following its success, the loyalty card scheme would now be extended.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd taflen o weithgareddau'r Maer dros gyfnod yr haf. Atgoffwyd aelodau o ddigwyddiad agoriad swyddogol y Bandstand ar 17 Hydref am 3.15yp. Gwahoddir gwsteion a chynigir lluniaeth iddynt. Bydd band pres bychan yn perfformio yn yr adeilad. Derbyniwyd gwahoddiad oddi wrth Mr Vernon Studt eleni eto i agoriad swyddogol Ffair Aberteifi ar 10 Tachwedd. Bydd yr orymdaith yn gadael Neuadd y Dref am 1.00yp.

A leaflet of the Mayor's summer activities was distributed to members. Councillors were reminded that the official opening of the refurbished Bandstand would take place on Friday, 17 October at 3.15 pm; guests will be invited and refreshments prepared. A small brass band will play in the Bandstand. An invitation to attend the official opening of Cardigan Fair on 10 November has been received from Mr Vernon Studt. The procession will leave the Guildhall at 1.00pm.

8. Cynllunio / Planning:

| <i>Rhif y Cais / Application No.</i> | <i>Cyfeiriad / Address</i> | <i>Y Bwriad / Proposal</i> | <i>Sylwadau / Comments</i> |
|--------------------------------------|----------------------------|--|--|
| A140699 | Castle Green, Green Street | Variation of condition No. 17 (Planning permission A100718) amended plan | Members were disappointed that the original garden walls have been demolished. It is hoped that plans are afoot to control noise (acoustics) and that evacuation plans are in order. Drainage and sewerage control needs monitoring. The pvc marquee is not in keeping with the surrounding traditional structure. |

| | | | |
|-----------|-------------------------------|--|---|
| A140690 | Pantyywylan, Cambrian Quay | Display of advertisement | Once again it is noted with disappointment that the applicant has applied for retrospective planning permission. The bilingualism policy practised by both the county council and Cardigan Town Council has not been adhered to. Members are not pleased that such large signs are placed on a listed building. |
| A140691LB | Pantyywylan, Cambrian Quay | Advertisement signage panels to east facade (listed building). | |

9. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

| <i>Dyddiad / Date</i> | <i>i</i> | <i>Côd / Code</i> | <i>Rhif y Siec Cheque No.</i> | <i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i> |
|---------------------------|---|-------------------|-----------------------------------|----------------------------------|
| 1/10/14 | Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa</i> /Rent of Office | A7 | D/D | £238.33 (0.00) |
| 27/9/14 | Siemens: <i>Prydles y llungopiwr</i> /Lease of photocopier | A16 | D/D | £150.00 (25.00) |
| 16/9/14 | EPL: Crysau-T-Shirts (<i>Cefnogwch Ganol Tref Aberteifi</i> /Support Cardigan Town Centre) | D6 | 4003 | £52.80 (8.80) |
| 16/9/14 | Y Cyng. Graham Evans (<i>Bwyd gwirfoddolwyr</i> . Refreshments for volunteers removing Christmas lights) & <i>Crysau-T-shirts</i> (Peacocks) | B1 | 4004 | £44.00 (0.00) |
| 23/9/14 | <i>Ystadau a Chynnal a Chadw</i> /Care Society (Estates & Maintenance Services): Rent (Zoe Owen) | C16 | 4005 | £249.17 (0.00) |
| 30/9/14 | Commercial Christmas Ltd. <i>Rhandal cyntaf goleuadau Nadolig</i> . First instalment of Christmas lights (50%) | B1 | 4006 | £12,080.04 (2,013.34) |
| 30/9/14 | L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc</i> /Clerk's Salary (<i>Medi/September</i>) | A3 | 4007 | £732.95 (0.00) |
| 30/9/14 | HMRC: PAYE £549.00, Class 1 NIC £104.73 (<i>Gorff., Awst, Medi</i> — July, August, September) | A15 | 4008 | £653.73 (0.00) |
| 11/9/14 | BDO (<i>Archwilydd Allanol</i> /External Auditors) | A11 | 4009 | £498.00 (83.00) |
| 30/9/14 | Antur Teifi: <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd</i> . Rent of Conference Room (2/9/14, 16/9/14) | A7 | 4010 | £60.00 (10.00) |
| 15/9/14 | Cyngor Sir Ceredigion County Council: <i>Deddf Hapchwarae 2005</i> Gambling Act | A21 | 4011 | £20.00 (0.00) |
| 15/9/14 | Capel Bethania: <i>Hurio'r festri</i> /Hire of vestry for Pre-Remembrance Day meeting | A7 | 4012 | £25.00 (0.00) |
| 18/9/14 | BT: <i>Ffôn</i> /Telephone | A19 | 4013 | £70.91 (11.82) |
| 26/9/14 | Argraffwyr E. L. Jones Printers: <i>Deunydd i'r ymgyrch "Cefnogwch Ganol Tref Aberteifi"</i> . Stationery for the "Support Cardigan Town Centre" campaign. | D6 | 4014 | £734.40 (122.40) |
| 30/9/14 | <i>Bachan Deche</i> / Handyperson (<i>Medi/September</i>) | A18 | 4015 | £415.80 (69.30) |

Eglurwyd gan y Cyng. Catrin Miles y byddai eitemau tan gategori D6 "Cefnogwch Ganol Tref Aberteifi" yn cael eu had-dalu gan Gyngor Sir Ceredigion. Disgwylir anfoneb eto am arwyddion.

Cllr Catrin Miles noted that the items listed under category D6 "Support Cardigan Town Centre" would be reimbursed by the county council. A further invoice for large posters is awaited.

Cynigiwyd gan y Cyng. Melfydd George ac eiliwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards bod y biliau uchod yn cael eu talu.

It was proposed by Cllr Melfydd George and seconded by Cllr Llwyd Edwards that the above bills be paid.

Derbyniadau/Receipts: 11/8/14 *Llog y Banc/Bank Interest* £4.87

(b) Adroddiad Ariannol Chwarterol y Cyngor / Council's Quarterly Financial Report.

Cynigiodd y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards bod y cyngor yn derbyn yr Adroddiad Arannol chwarterol fel un cywir.

It was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Llwyd Edwards that the council accepts the quarterly financial report as correct.

Cytunwyd bod Adroddiad Ariannol y Cyngor yn cael ei gynnwys ar safle we'r cyngor.
It was agreed that the Annual Financial Report of the council be posted on the website.

- (c) **Cadarnhau dyddiad archwiliad ariannol mewnol gan gynghorwyr .**
Confirmation of date of internal financial paper trail by councillors.

Cytunodd y Cynghorwyr Melfydd George ac Akira Shimazaki gyfarfod â'r clerc ddydd Gwener, 11 Hydref am 4.00yp i archwilio'r cyfrifon.
Councillors Melfydd George and Akira Shimazaki agreed to meet the clerk on Friday, 11 October at 4.00pm to paper-trail the accounts.

10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) **Maes Tref Maesglas: Cynhelir ymchwiliad cyhoeddus yn Neuadd y Dref ar 15 Rhagfyr. Caiff y cyfarfod ei gadeirio gan y bargyfreithiwr Mr Emyr Gweirydd Jones, Caerdydd. Apeliodd y Cyng. Adams-Lewis am unrhyw dystiolaeth i brofi bod y man chwarae wedi bod mewn bodolaeth i'r cyhoedd ers y pumdegau o'r ganrif ddiwethaf. Bydd y dystiolaeth yma yn cynorthwyo'r ddadl gyfreithiol a godwyd ers tro ynghylch y geiriad "by right" (rheidrwydd i ofyn caniatâd) neu "as of right" (heb ofyn caniatâd erioed). Mae statws maes tref yn dibynnu ar ddehongliad cyfreithiol yr uchod.**
- (ii) **Pryderodd y Cyng. Adams-Lewis am y penderfyniad i wario £200,000 ar newidiadau yng Nghartref yr Hafod; yn ei dyb ef byddai codi estyniad i'r cartref yn llawer mwy buddiol. Gofynnodd y Cyng. Melfydd George i'r clerc chwilio am dystiolaeth sydd yn cyfeirio at addewidion y cyngor sir i'r mater.**
- (iii) **Er i'r cyngor anfon llythyron o gwyn at gwmni Tai Ceredigion, mae'r sbwriel yn dal i fod yn broblem tu allan i 35 Maeshenffordd.**
- (iv) **Gwyntyllodd y Cyng. Clive Davies y broblem barhaol o gyflwr wŷneb y ffordd ar Lôn Bingham. Cytunwyd i'r Cyng. Mark Cole wneud ymholiadau pellach i ddatrys yr *impasse*.**

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) **Mae'r cyngor sir yn gofyn am drafodaeth ynglŷn â gorsafoedd pleidleisio drwy'r sir. Bydd angen adrodd yn ôl wedi derbyn y ddogfen.**
- (ii) **Toriadau yng nghyllid y cyngor sir. Disgwylir adroddiad ar 8 Hydref ar faint y toriadau.**
- (iii) **Disgwylir rhagor o wybodaeth oddi wrth Mr Huw Morgan ynglŷn â'r syniad o Gyngor Sir Ceredigion yn trefnu les i Gyngor Tref Aberteifi am ardal y Strand.**
- (iv) **Datblygiad Maes-yr-haf: Cafwyd diweddariad bod contractwyr newydd wedi eu penodi i aildechrau'r gwaith ar y safle.**
- (v) **Castell Aberteifi: daeth y newyddion sydyn bod ymddiriedolwyr y castell yn bwriadu ailstrwythuro'r cynllun. Disgwylir i'r gwaith adeiladu orffen tua diwedd y flwyddyn hon, felly bwriad yr ymddiriedolwyr yw sefydlu strwythur staffio newydd erbyn Ionawr gan beryglu swyddi pump o'r staff llawn amser. Gan fod Cyngor Tref Aberteifi, er ar raddfa llai, wedi ariannu'r prosiect, y barn gyffredinol yw y dylid derbyn gwybodaeth o benderfyniadau pwysig yr ymddiriedolwyr mewn da bryd ac nid o ddatganiadau a gyhoeddir yn y wasg. O fis Tachwedd ymlaen disgwylir adroddiad misol yn ôl oddi wrth gynrychiolydd y cyngor sydd yn gwasanaethu ar y bwrdd. Yn dilyn y rhagdybiaeth yma, fe roddir "Castell Aberteifi" ar agenda misol y cyngor.**

(c) Y Cyng. Mark Cole (wedi ei ebostio yn ei absenoldeb):

- (i) **Dywedodd y Cyng. Cole bod gwaith ymchwilio wedi ei wneud gan asiantwyr yn cynrychioli Dŵr Cymru yn Feidrfaer. Disgwylir adroddiad yn ôl yn fuan.**
- (ii) **Adroddwyd gan y Cyng. Cole bod problemau o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi codi yn Stryd Napier yn ddiweddar. Cafwyd cyfarfod buddiol gyda'r trigolion lleol a gweithwyr y Gymdeithas Gofal i drafod y mater; cynhelir cyfarfod eto ym mis Tachwedd.**
- (iii) **Adroddwyd gan y Cyng. Cole bod y gwaith adeiladu yn Stryd Wiliam wedi dechrau ac ei fod wedi siarad â rheolwr y safle a sicraodd y cedwir cysylltiad gyda'r trigolion lleol er mwyn lleihau unrhyw ymyrraeth.**

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) **Maesglas Village Green: a public inquiry will be held at the Guildhall on 15 December. The inquiry will be chaired by the barrister Mr Emyr Gweirydd Jones, Cardiff. Cllr Adams-Lewis**

appealed for any documentation which might support the existence of the play area on the site since the 1950's. The evidence will be used to support the legal debate for village green status as to whether local people have been using the play area "by right" (having to seek permission) or "as of right" (never having to seek permission) in conjunction with the right of local residents and children to use the land for recreational purposes.

- (ii) Cllr Adams-Lewis was concerned at the authority's decision to expend £200,000 on refurbishing Yr Hafod Home; in his opinion, erecting an extension to the home would be more beneficial. Cllr Melfydd George asked the clerk to unearth any evidence which refers to the promises made by the county council regarding the issue.
- (iii) Although letters of complaints have been forwarded to Tai Ceredigion Ltd., the unsightly rubbish and other items continue to be an eyesore outside 35 Maeshenffordd.
- (iv) Cllr Clive Davies highlighted the continuing problem of the surface of Bingham Lane. It was agreed that the local member, Cllr Mark Cole, once more should take up the challenge to resolve the impasse.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) The county council has requested a discussion regarding the voting stations in Ceredigion. A response will be expected on receipt of information.
- (ii) Cutbacks to the county council budget. A report is expected on the amount of cutbacks on 8 October.
- (iii) More information is expected from Mr Huw Morgan regarding the suggestion that Ceredigion County Council would offer a lease to Cardigan Town Council to administer the Strand area.
- (iv) The Maes-yr-haf development: An update has been received that new contractors have been appointed to regenerate the work on the site.
- (v) Cardigan Castle: The unexpected news was announced that the trustees of the castle intend to create a business restructuring of the project. The two years of building work at the castle is due to be completed at the end of the year and a new staffing structure to run the business will be in place by January. All five current staff have been issued with notices of possible redundancy and encouraged to apply for the new roles. As Cardigan Town Council, albeit on a smaller scale, is a regular funder of the development, members feel that proposals of this nature should have been shared with all partners and information given monthly to the town council and not by press releases. From November, it is expected that monthly reports will be received from the town council representative on the board of trustees. With this assumption, "Cardigan Castle" will be included on the monthly agenda of the town council.

(c) Cllr Mark Cole (e-mailed in his absence):

- (i) Cllr Cole reported on the inspection works that have been carried out by agents representing Welsh Water in Feidrfair. A report back is expected imminently.
- (ii) Cllr Cole reported that there have been increased concerns over anti-social behaviour in Napier Street in recent weeks. A productive meeting was held between local residents and the relevant care authority to discuss the issue and a follow-up meeting will be held in early November.
- (iii) Cllr Cole reported that works have begun in William Street on the new development and that he has spoken to the site manager to ensure that he keeps in regular contact with local residents during the works period to minimise disruption. There remains no progress on the development at Maesyrfhaf/Rhos-y-Dre.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

| | <i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i> | <i>Sylwadau / Comments</i> |
|-----|--|---|
| 145 | CSC/CCC (Bronwen Morgan): <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Clerc fynychu Cinio Blynyddol y Cyngor.</i> Invitation to the Mayor and Clerk to attend the Annual Dinner of the Council, 26/9/14, Feathers Hotel, Aberaeron. | <i>Bu'r Maer a'r Clerc yn y digwyddiad.</i> The Mayor and Clerk attended the function. <i>Llongyfarchwyd y Cyng. John Adams-Lewis ar lwyddiant y noson.</i> Cllr John Adams-Lewis was congratulated on the success of the evening. |

| | | |
|-----|--|---|
| 146 | CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Cau ffordd dros dro / Temporary road closure – Mwldan Uchaf/Upper Mwldan. Oherwydd cyflwr mur cefn Neuadd y Dref.</i> Due to partial wall movement of the Guildhall building. | Nodwyd. Noted. |
| 147 | CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Cau ffordd dros dro / Temporary road closure – 10.40-11.40, 9/11/14 Parêd Dydd y Cofio/Remembrance Day Parade</i> | Nodwyd. Noted. |
| 148 | CSC/CCC (Russell Hughes-Pickering): <i>Safoni enwau lleoedd.</i> Standardisation of place names. | <i>I'w drosglwyddo i Is-bwyllgor Cynllun yr Iaith Gymraeg.</i> To be transferred to the Welsh Language Scheme Sub-committee. |
| 149 | CSC/CCC (Paul Arnold): <i>Cyfleusterau Cyhoeddus Aberteifi.</i> Public Conveniences in Cardigan. <i>Ymateb i'r argymhellion.</i> Response to the recommendations. | <i>Derbyniwyd e-bost oddi wrth Mr Huw Morgan (Cyfarwyddwr Strategol y cyngor sir) yn datgan ei barodrwydd i symud ymlaen â'r trafodaethau gyda'r Maer.</i> An email was received from Mr Huw Morgan (the county council Strategic Director) confirming that further negotiations would take place with the Mayor regarding the town council recommendations. |
| 150 | CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Ymateb i gais y cyngor am fwy o arwyddion ar Rodfa'r Felin.</i> Response to the council's request for extra repeater signs on Rhodfa'r Felin. | <i>Wedi ei flaenyrru i aelodau ar 9 Medi.</i> Forwarded to members on 9 September. It was agreed to raise the relocating of the "Theatr Mwldan" sign on Rhodfa'r Felin at the next Traffic Management Meeting. |
| 151 | CSC/CCC (Huw Morgan): <i>Ymateb i llythyr y cyngor ar delerau parcio Gloster Row.</i> Response to the council's concerns regarding parking charges for residents at Gloster Row. | <i>Wedi ei flaenyrru i aelodau ar 9 Medi.</i> Forwarded to members on 9 September. <i>Cytunwyd cadw llygad ar y sefyllfa wedi i'r arwyddion eu gosod.</i> It was agreed to monitor the developments following the placing of repeater signs. |
| 152 | CSC/CCC (Stephen Johnson): <i>Cadarnhau e-bost y cyngor i dderbyn gwybodaeth.</i> Confirmation of e-mail address to receive information. | <i>Mae'r clerc wedi ateb y llythyr gan newid y cyfeiriad ebost.</i> Clerk has replied to the request and changed the email address. |
| 153 | <i>Llywodraeth Cymru: Cydnabyddiaeth o dderbyn ymateb y cyngor i'r Papur Gwyn ar Ad-drefnu Llywodraeth Leol.</i> Welsh Government: Acknowledgement of council's response regarding the White Paper of Reorganisation of Local Government. | Nodwyd. Noted. |
| 154 | Mrs Janet Richardson, Cwmtedu: <i>Llythyr yn gofyn am gefnogaeth i gadw gwasanaeth y Cardi Bach.</i> Letter requesting support to maintain the "Cardi Bach" coastal bus service. | <i>I'w drafod yn yr is-bwyllgorau.</i> To be discussed at the next sub-committees. <i>Y Cyng. Adams-Lewis a Miles i ymchwilio i mewn i gostau'r gwasanaeth.</i> Cllrs Adams-Lewis and Miles to research the costs of the service. |
| 155 | <i>Swyddfa Archwilio Cymru/Wales Audit Office: Hysbysiad y caiff y cyngor taliad o £30 fel canlyniad i'r broses ailddosbarthu cronfa wrth gefn.</i> Notice that the council will receive a sum of £30 from the redistribution of reserves held by the authority. | Nodwyd. Noted. |
| 156 | Cyngor Cymuned Borth Community Council: <i>Ymateb i gais y cyngor am gefnogaeth am ostyngiad yng nghostau parcio.</i> Response to the council's request for support regarding lowering of parking charges. | Nodwyd. Noted. |
| 157 | RAFA: <i>Gwahoddiad / Invitation to the Christmas Carol Service, St Cynwyl's Church, Aberporth, 15/12/14, 6.30pm</i> | Nodwyd. Noted. |
| 158 | <i>Gwasanaeth Tân ac Achub: / Mid & West Wales Fire & Rescue Service: Joint Public Service Centre project.</i> | <i>Mae dolenni'r we ar gael gan y clerc.</i> Weblinks available with the clerk. Cllr Brabrook confirmed that a decision had been taken to locate the control room to Bridgend. |
| 159 | Traws Link Cymru: <i>Ymgrych Rheilffordd Gorllewin Cymru.</i> West Wales Rail Campaign: <i>Diweddariad/Update.</i> | <i>Taflen wybodaeth ar gael gan y clerc.</i> Information leaflet available with clerk |

| | | |
|-----|---|--|
| 160 | W. J. Williams & Davies: <i>Diweddariad ynglŷn â barn y Comisiwn Elusennau ar y prydlesau.</i> Update from the Charity Commission regarding leases. | <i>Copïau wedi eu dosbarthu i aelodau.</i> Copies distributed to the appropriate members. Further copies to be distributed to Cllr Adams-Lewis, Dai Brabrook and Gwynfi Jenkins. |
| 161 | Tai Ceredigion Cyf.: <i>Cydnabyddiaeth o dderbyn llythyr y cyngor ynglŷn â materion Cae Chwarae Pentop.</i> Acknowledgement to the council's letter regarding access issues at Pentop. | Nodwyd. Noted. |
| 162 | Mr John Edwards, Maesycod: <i>Llythyr ynglŷn â materion priffyrdd.</i> Letter regarding highway issues. | <i>I'w drafod yn yr is-bwyllgorau.</i> To be discussed at the next sub-committees. |
| 163 | Cadwgan (<i>Castell Aberteifi</i> /Cardigan Castle): <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support. | <i>Wedi ei drafod yn yr Is-bwyllgor Rhoddion.</i> Discussed at the Grants Sub-committee, 30/9/14. |
| 164 | "Y Dwrgi" (Papur Bro Aberteifi): <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support. | <i>Wedi ei drafod yn yr Is-bwyllgor Rhoddion.</i> Discussed at the Grants Sub-committee, 30/9/14. |
| 165 | Eglwys y Santes Fair/St Mary's Church: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support. | <i>Wedi ei drafod yn yr Is-bwyllgor Rhoddion.</i> Discussed at the Grants Sub-committee, 30/9/14. |
| 166 | Theatr Mwldan: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support. | <i>Wedi ei drafod yn yr Is-bwyllgor Rhoddion.</i> Discussed at the Grants Sub-committee, 30/9/14. |
| 167 | Urdd Gobaith Cymru: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support. | <i>Wedi ei drafod yn yr Is-bwyllgor Rhoddion.</i> Discussed at the Grants Sub-committee, 30/9/14. |
| 168 | <i>Sioe Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i'r Cinio Blynnyddol, 24/10/14 yng Ngwesty'r Cliff.</i> Cardigan County Show: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Annual Dinner at the Cliff Hotel. | <i>Wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> Invitation given to Mayor. |
| 169 | <i>Siarter Iaith Ceredigion: Digwyddiad i hyrwyddo'r Siarter yn Aberteifi ar 16 Hydref.</i> Welsh Language Charter: An event to promote the Charter in Cardigan on 16 October. | Nodwyd. Noted. |
| 170 | <i>Aberystwyth Kronberg People in Partnership Association: Cais am wybodaeth a hanes gefeillio Aberteifi.</i> Request for information regarding the Cardigan twinning connections. | <i>Gofynnwyd i'r clerc anfon yr wybodaeth ymlaen.</i> The clerk was asked to forward the relevant information. |
| 171 | BDO: Completion of audit. <i>Angen cyflwyno'r Adroddiad Blynnyddol i'r cyngor am dderbyniad.</i> Annual Return to be presented to council for approval. | Notice of Conclusion of Audit has been displayed on notice board for 14 days from 16-30 September. It was proposed by Cllr Llwyd Edwards and seconded by Cllr Catrin Miles that the Annual Return was approved and accepted by council. |
| 172 | Antur Teifi: <i>Cytundeb o brydles swyddfa'r clerc o 1/9/14 hyd 1/10/15.</i> Licence to lease the clerk's office from 1/9/14 to 1/10/15. | <i>Arwyddwyd y cytundeb gan y Maer.</i> The Mayor signed the contract at the meeting. |
| 173 | <i>Bachan Deche: Adroddiad mis Medi.</i> Handyperson: September report. | <i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12. |

Bronwen Morgan: *Prif Weithredwr.* Chief Executive.

Keith Morgan: *Pennaeth Asedau a Gwasanaethau Trafnidiaeth.*
Head of Assets and Transportation Services

Russell Hughes-Pickering:

Pennaeth Perfformiad a Gwelliant – Head of Performance and Improvement

Paul Arnold: *Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol*

Huw Morgan: *Cyfarwyddwr Strategol: Cymunedau Cynaliadwy* – Strategic Director: Sustainable Communities

Stephen Johnson: *Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service*

12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 16 Medi.

Confirmation of 16 September Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles bod y cofnodion yn gywir.

It was proposed by Cllr Dai Brabrook and seconded by Cllr Catrin Miles that the minutes were correct.

Adroddiad y Bachan Deche: Cytunwd gofyn i Tim Phillips, Anvil Fabrication, i symud ymlaen â'r gwaith ar y cae chwarae aml-bwrpas ar unwaith.

Derbyniwyd adroddiad gan y Bachan Deche am broblem graffiti ar hyd furiau ac arwyddion y dref. Gwirfoddolodd y Cyng. Neal Jones wneud ymdrech i waredu'r ysgrifen gyda chemegau arbenigol sydd ganddo. Pe bai ef yn aflwyddiannus, cytunwyd cael pris oddi wrth gwmni Ultima Cleaning. Bydd angen gwyntyllu'r broblem yng nghyfarfod nesaf PACT. Cytunwyd gosod yr eitem ar agenda'r is-bwyllgorau.

Dywedodd y Cyng. Clive Davies bod y gwaith i gynnig Band Eang Cyflym yn yr ardal yn mynd yn ei flaen yn hwylus.

Roedd y Cyng. Llwyd Edwards yn bles i adrodd bod cyfarfod diweddar Cae Chwarae Pentop wedi bod yn llwyddiannus a bod y datblygydd, Mr Bob Sheridan, wedi paratoi ffin o ddwy fedr o amgylch y cae gyda gofal arbennig i osgoi'r *slow-worms*.

Handyperson's Report: It was agreed to request Anvil Fabrication to proceed with the relevant work at the multi-purpose play area as soon as possible.

The problem of graffiti in the town was raised by the Handyperson. Cllr Neal Jones volunteered to attempt to remove the graffiti with industrial chemicals. If he is unsuccessful, it was suggested that a quotation be obtained from Ultima Cleaning. The problem to be raised at the next PACT meeting. It was decided to place the item on the agenda of the next sub-committees.

Cllr Clive Davies stated that the work to supply the Super Fast Broadband in the area was proceeding at a rapid pace.

Cllr Llwyd Edwards stated that the recent Pentop play area meeting had been conducted smoothly and that Mr Bob Sheridan had prepared a two metre border around the boundary with special care taken to avoid injury to slow-worms.

13. Ceisiadau am gymorth ariannol: Argymhellion yr Is-bwyllgor Grantiau (tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adrannau 137, 142, 145)

Grant applications: Recommendations of the Grants Sub-committee (under sections 137, 142, 145 of the Local Government Act 1972)

Gweler y cofnodion / See minutes (tudalennau/pages 892 & 893)

Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a chynhaliwyd yr eitem uchod mewn pwyllgor.

Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards.

In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed the above item in committee.

The above was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Llwyd Edwards.

14. Personél / Personnel.

15. Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.

Sicrhodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

16. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the Mayor's discretion.

(a) Colomennod yn ffowlio palmentydd ac adeiladau yn Aberteifi.

Pigeons fouling the pathways and buildings in Cardigan.

Gwirfoddolodd y Cyng. Llwyd Edwards rhestru'r adeiladau sydd yn dioddef o'r broblem.

Cllr Llwyd Edwards vounteered to list the buildings affected by this problem.

(b) Trolïau Tesco yn cael eu gadael ar hyd strydoedd ac ystadau'r dref.

Tesco trolleys littering streets and housing estates.

Mae'r Cyng. Akira Shimazaki wedi gwirfoddoli tynnu llun o'r trolïau sydd wedi eu gadael ar hyd y strydoedd.

Cllr Akira Shimazaki volunteered to take photographs of abandoned trolleys and their proximity.

- (c) **Goleuadau strydoedd / Street lights: Church Street and Cnwcydintir Lane: Pryderon ynghylch iechyd a diogelwch yn y ddau safle. Hefyd cais am linellau melyn ar Stryd yr Eglwys**

Concerns regarding health and safety issues implied by residents in both cases. Also request submitted for yellow lines on Church Street.

Cytunodd y Cynghorwyr Graham Evans a Catrin Miles gysylltu â phreswilydd 4 Church Street ynghylch y broblem. Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis a'r clerk archwilio'r broblem sydd ar Lôn Cnwcydintir.

Cllrs Graham Evans and Catrin Miles agreed to contact the resident of 4 Church Street regarding the problem; Cllr Adams-Lewis and the clerk agreed to review the problem at Cnwcydintir.

- (d) **Agoriad swyddogol y Bandstand: Pris am luniaeth oddi wrth Non Harries: £2.00 y pen.** Official opening of the Bandstand: Quotation for refreshments from Non Harries: £2.00 per person.

Cytunodd y cyngor dalu am luniaeth hyd at 30 o westeion i'r agoriad swyddogol. Cynigiwyd gan y Cyng. Neal Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards.

Cllr Neal Jones proposed that the council pays for refreshments for up to 30 guests at the official opening of the Bandstand; Cllr Llwyd Edwards seconded the proposal.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 9.30pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date